# Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg y Cyngor 2022 – 2027

# Blwyddyn 1 2022 – 2023

**Drafft Dim Statws**

**No Status Draft**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

**This document is available in English**

## Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

| 1.1 | **Amcanion: Cynnal arolwg o rieni cyn-ysgol i adnabod y galw yn y dyfodol am addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Sefydlu grŵp fforwm CSCA ar ymgysylltiad i'w sefydlu er mwyn chwilio am ffyrdd o fonitro ac asesu'r galw am addysg Gymraeg yn ogystal â hyrwyddo manteision dwyieithrwydd - cysylltu â'r Bwrdd Iechyd er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni newydd a darpar rieni. | **Targed erbyn 2027** | Casglu ffigurau arolwg yn flynyddol i lywio'r broses o gynllunio ar gyfer lleoedd ysgol ac adeiladau ysgolion |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Dechrau'n Deg; Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; holl bartneriaid eraill y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

Diweddariad

Bydd diweddariad llawn yn cael ei gynnwys yn y CSCA.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau wrthi'n drafftio Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Bro Morgannwg 2022-23 i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 31 Gorffennaf 2023 a bydd Adroddiad Blynyddol CSCA yn bwydo i gamau gweithredu perthnasol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-23 y Fro ar ôl iddi gael ei chwblhau a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i hyrwyddo dwyieithrwydd drwy'r cynllun 'Eich Taith Ddwyieithog' a deunyddiau ymgyrchu cysylltiedig. Mae'r wefan hefyd yn rhoi gwybodaeth am ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r Ganolfan Gymraeg:
Eich Taith Ddwyieithog (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)

Mae pob rhiant sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am ofal plant yn cael gwybodaeth am fagu plentyn yn ddwyieithog, a gwybodaeth am grwpiau Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda Hyrwyddwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol i hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Cwblhawyd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) llawn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022. Roedd ystod o bartneriaid a sefydliadau yn rhan o hyn, ond roedd mewnbwn rhieni'n isel. Credir bod yr ystod o bartneriaid a oedd yn rhan o'r gwaith hwn yn adlewyrchu barn rhieni. Trafodwyd yr ADGP fel cyfarfodydd dilynol gyda Phartneriaeth Datblygu a Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar, y mae Mudiad Meithrin hefyd yn eu mynychu.

| 1.2 | Amcanion: Datblygu a chefnogi Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi fel trothwy i addysg Gymraeg | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Adroddiad sefyllfa a dichonoldeb i'w baratoi yn 2022/2023 sy'n dangos y galw tebygol, opsiynau lleoliadau, materion perthnasol eraill | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu nifer y Cylchoedd Meithrin gan 50%, y cynnydd / twf i'w adrodd yn flynyddol |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Mudiad Meithrin; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg; Dechrau'n Deg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

Diweddariad

Bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn y CSCA.

Mae ymholiadau wedi eu gwneud am ddatblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Fro.  Nid yw rhai wedi symud ymlaen, ond rydym yn hyderus am ddatblygiad newydd posib yn Ysgol Pen y Garth ym Mhenarth.

Mae pedwar grŵp Ti a Fi wedi'u sefydlu ac mae cefnogaeth barhaus yn parhau ar gyfer grwpiau Ti a Fi presennol. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cynnal sesiynau gwybodaeth i rieni mewn llyfrgelloedd sy'n cyd-fynd â sesiynau Ti a Fi i ymgysylltu â rhieni.  Mae gan Mudiad Meithrin stondinau gwybodaeth yn y digwyddiadau hynny hefyd.

| 1.3 | Amcanion: Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynyddu gweithgarwch marchnata ac ymestyn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel, marchnata penodol fel sgil sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'i anelu at bobl ifanc 18-25 oed a cheiswyr gwaith | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu nifer y cofrestriadau gan 20%, cynnydd / twf i'w adrodd yn flynyddol |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

Diweddariad

Mae'r cyfanswm sy'n dysgu o dan y cynllun Iaith Gwaith yn gynnydd o 15.9% ar nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru gyda Dysgu Cymraeg y Fro y llynedd.

Yn 2021/2022 cwblhaodd 354 o ddysgwyr brif gwrs >50 awr.

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys pob dysgwr wrth i staff ddysgu ochr yn ochr â thrigolion y Fro tan fis Awst 2022.

Mynychodd naw aelod o staff gyrsiau trochi'r Cymraeg preswyl a rhithwir a ariannwyd yn llawn yn Nant Gwrtheyrn.

Nifer y dysgwyr â Iaith Gwaith ym mis Mawrth 2023:

| **Cynllun Iaith Gwaith** |
|---|
| Mynediad 35 |
| Sylfaen 8 |
| Canolradd 0 |
| Uwch 6 |
| Hyfedredd 2 |
| **Cyfanswm 51** |

| **1.4** | **Amcanion: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud o lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u targedu i annog dysgwyr i symud i lefel uwch o ruglder | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu cyfraddau dilyniant gan 20% i lefelau uwch o ffigyrau gwaelodlin 2022 |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

Diweddariad

Ym mis Medi 2023, dychwelodd 69% o ddysgwyr ar lefel uwch nag yn 2021/2022. Mae'n bwysig cofio, o fis Medi 2023, bod dysgwyr a gyflogir gan y Cyngor wedi symud i gyrsiau Iaith Gwaith. Gan fod y cyrsiau Iaith Gwaith yn fwy dwys, yn cyddwyso cyrsiau 2 flynedd yn flaenorol i mewn i flwyddyn, dewisodd rhai dysgwyr aros ar yr un lefel. Cynyddodd y nifer ar y lefel Uwch, ond roedd y cynnydd mwyaf ymysg dysgwyr lefel Mynediad.

Darllenwch dysteb dysgwr yma

| **1.5** | **Amcanion: Datblygu a chefnogi'r cynllun Iaith Gwaith gan ychwanegu tiwtor Cymraeg llawn amser pwrpasol i hyfforddi a chefnogi staff y Cyngor** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Nod y cynllun Iaith Gwaith yw sicrhau dilyniant staff y Cyngor o fewn lefelau. | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu cyfraddau dilyniant gan 20% i lefelau uwch o ffigyrau gwaelodlin 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Gweithgaredd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) | | |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

**Diweddariad**

Mae'r Cydlynydd Iaith Gwaith wedi bod yn y swydd ers mis Medi 2022, yn cyflwyno nifer o gyrsiau Cymraeg i staff ochr yn ochr â dysgwyr cymunedol. Mae'r cyrsiau am ddim i staff y Cyngor ac cael eu cynnal yn ystod amser gwaith, dros Zoom. Ar hyn o bryd mae 60 aelod o staff ar gofrestr y Cydlynydd Iaith Gwaith ond efallai y bydd eraill yn dal i fod wedi'u cofrestru gyda Dysgu Cymraeg y Fro (DCyF).

Ym mis Medi 2022, y dysgwyr presennol yn cofrestru i'r lefel nesaf gyda Iaith Gwaith:
Sylfaen 8
Uwch 6
Gloywi 2

Dysgwyr newydd (Mynediad)
Medi / Mynediad 17 (12 yn mynychu ar hyn o bryd)
Tachwedd / Mynediad 8 (4 yn mynychu ar hyn o bryd)
Ionawr / Mynediad 27 (24 yn mynychu ar hyn o bryd)

Byddwn yn defnyddio'r ffigurau hyn fel sylfaen ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, gan y bydd y cynllun Iaith Gwaith wedi bod yn rhedeg am o leiaf blwyddyn.

Nifer y staff sydd wedi cwblhau cyrsiau hunan-astudio ar-lein yn ystod tymor mis Medi a thymor mis Ionawr:

| | | |
|---|---|---|
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| GOFAL CYMDEITHASOL: Rhan 1 | 5 | 5 |
| GOFAL CYMDEITHASOL: Rhan 2 | 5 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 1 |
| CROESO: Rhan 2 | 5 | 1 |
| GWELLA'CH CYMRAEG: | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 2 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 1 |
| CROESO: Rhan 2 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 4 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: RHAN 1 | 5 | 0 |


| **1.6** | **Amcanion: Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg gyda'i gilydd** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu sesiynau amser stori yn Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd. Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu'r iaith | **Targed erbyn 2027** | Sefydlu sesiynau amser stori ym mhob un o'r prif drefi a'u cynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth prif ffrwd. Trefnu cyrsiau iaith teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol. |

| Cyfrifoldeb | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
|---|---|---|---|

**Diweddariad**

Mae Menter Bro Morgannwg yn cynnig 4 sesiwn yr wythnos ar draws y Fro yn Y Barri, Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, a gyflwynir gan staff y llyfrgell. Mae'r sesiynau'n boblogaidd.

| Lleoliad | Nifer y sesiynau yn 2022/23 | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|
| Llyfrgell y Bont-faen | 30 | 376 |
| Llyfrgell Llanilltud Fawr | 30 | 358 |
| Llyfrgell y Barri | 30 | 450 |
| Llyfrgell Penarth | 30 | 296 |




Yn ogystal â'r sesiynau Amser Stori yn y llyfrgell cynigiwyd cyfres o sesiynau wythnosol gan gynnwys:

- Sesiynau Bygi Ffit wedi'u hanelu at rieni ifanc a'u babanod.
- Dosbarthiadau synhwyraidd

- Diwrnodau hwyl i'r teulu tymhorol – Thema Nadolig (mynychodd 112), y Pasg a Chalan Gaeaf (mynychodd 53).

Mynychwyr Menter:

| | **Nifer** | |
|---|---|---|
| Nifer y gweithgareddau plant | 97 | |
| Nifer y plant a fynychodd | 2,112 | |
| Nifer y gweithgareddau i bobl ifanc (11-25) | 26 | |
| Nifer y bobl ifanc a fynychodd | 573 | |
| Nifer y gweithgareddau i deuluoedd | 190 | |
| Nifer y cyfranogwyr | Plant 1,496 | Oedolion 1,123 |
| Gweithgareddau Oedolion | 113 | |
| Nifer yr oedolion a fynychodd | 1,736 | |

| **1.7** | **Amcanion: Rhoi cymorth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i leddfu pryderon ynghylch gallu helpu gyda gwaith cartref** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Sefydlu Clybiau Gwaith Cartref mewn ysgolion Cymraeg neu Ganolfannau Cymunedol i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg | **Targed erbyn 2027** | Trafodaethau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol gyda bwriad i sefydlu Clybiau Gwaith Cartref |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Ysgolion Cymraeg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Diweddariad**<br><br>Cydlynodd DCyF Clwb Ni ar ôl derbyn grant.  Fe wnaeth staff o'r Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Bro Morgannwg weithio mewn partneriaeth i gynnig gweithgareddau.  Roedd DCyF yn gobeithio denu rhieni a neiniau a theidiau i gyrsiau ond ni wnaeth hyn drosi i gofrestriadau ar gyfer cyrsiau. Fe wnaeth rhai o'r dysgwyr presennol fynychu gyda'u plant. Pan gafodd cyrsiau blasu byr gyda gofal plant (Mudiad Meithrin) eu cynnig doedd bron i 100% o'r dysgwyr a gafodd eu recriwtio drwy hysbysebu ddim yn rhieni Clwb Ni. Tynnodd Mudiad Meithrin eu staff yn ôl oherwydd prinder staff eu hunain ond parhaodd yr Urdd hyd at y cyfnodau clo.<br><br>Parhaodd staff DCyF â gweithgareddau drwy Zoom nes i'r grant ddod i ben. Mae DCyF wedi profi'r angen am glybiau ar ôl ysgol a hefyd ei bod yn bosib annog teuluoedd o bob cwr o'r Fro i ddod at ei gilydd mewn un lleoliad. Fodd bynnag, gan fod y staff wedi'u hyfforddi i weithio gyda 16+ nid yw'n cyd-fynd â'r gwaith craidd.  Mae'n faes y byddwn yn ei archwilio yn ystod y cynllun hwn. | | | |
| **1.8** | **Amcanion: Archwilio cyfleoedd i staff ar draws partneriaeth y Fforwm Iaith allu gwella eu sgiliau iaith** | | |
| **Gweithgaredd** | Llunio rhaglen o gyrsiau iaith i ddatblygu sgiliau a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | **Targed erbyn 2027** | Cyflwyno'r rhaglen hyfforddi |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Cyngor Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Digwyddiadau wythnosol a gynhaliwyd gan gydlynydd Iaith Gwaith: | | | |

| Dyddiad | Lefel | Amser |
|---|---|---|
| Dydd Llun | Sesiwn amser cinio | 12:00-2:00 |
| Dydd Mawrth | Bore Coffi | 11:00-11:30 |
| Dydd Gwener | Bore Coffi<br><br>Dal-i-fyny | 11:00-11:30<br><br>3:00-5:00 |



Medi

- Cyngerdd Dafydd Iwan, Paget Rooms, Penarth

Hydref

- Noson cyri, Dinas Powys (18 yn bresennol)
- Sesiwn canu - anthem genedlaethol ac Yma o Hyd (7 yn bresennol)

Tachwedd

- Paratoi ffilm fer ar gyfer Diwrnod Hawliau’r Gymraeg / Staffnet, Swyddfeydd Dinesig

Rhagfyr

- Sesiwn canu carolau (7 yn bresennol)

Chwefror

- Noson cwis ar-lein (10 yn bresennol)

Mawrth

- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, Swyddfeydd Dinesig
- Noson cyri, Dinas Powys (12 yn bresennol)



| 1.9 | **Amcanion: Cyflawni ymgyrch i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref – hyrwyddo dwyieithrwydd ac aml-ieithrwydd o fewn aelwydydd di-Gymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch Cymraeg a dwyieithog yn y cartref | **Targed erbyn 2027** | Cytuno a lansio'r ymgyrch erbyn mis Medi 2022 gyda chynnydd i'w adrodd yn flynyddol gan y partneriaid cyflawni.<br>. |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; yr Urdd; Swyddog y Gymraeg Cyngor Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Rydym yn parhau i hyrwyddo dwyieithrwydd drwy'r cynllun 'Eich Taith Ddwyieithog' a deunyddiau ymgyrchu cysylltiedig.  Mae'r wefan hefyd yn rhoi gwybodaeth am ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r Ganolfan Gymraeg:
Eich Taith Ddwyieithog (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)

Mae pob rhiant sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am ofal plant yn cael gwybodaeth am fagu plentyn yn ddwyieithog, a gwybodaeth am grwpiau Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi.

Mae fideos gwybodaeth, deunyddiau cymorth ac adnoddau eraill ar gael ar dudalen benodol ar ein gwefan:
Addysg Cyfrwng Cymraeg ac Adnoddau i Rieni (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)

Mae gan dudalen Dechrau'n Deg fideo dwyieithog i hyrwyddo ei wasanaethau:



Rydym yn gobeithio gweithio gyda’r Hyrwyddwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol i bennu sylfaen a gweithgareddau dilynol i fesur cynnydd

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

| **2.1** | **Amcanion: Parhau i gynnig mwy o gyrsiau iaith ar amryw lefelau hyfedredd i alluogi mwy o weithwyr i weithio'n ddwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynyddu'r ddarpariaeth yn y gweithle i siaradwyr Cymraeg petrus er mwyn rhoi hwb i'w hyder, gan gynnwys cyrsiau rhithwir | **Targed erbyn 2027** | Mwy o ddarpariaeth yn y gweithle o wahanol fathau o gyrsiau (ystafell ddosbarth ac ar-lein) |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro/ Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

**Diweddariad**

Mae'r cydlynydd Iaith Gwaith wedi bod yn y swydd ers Awst 2022, yn cynnig cyrsiau am ddim sydd ar gael i staff yn ystod amser gwaith. Mae cyrsiau ar gael ar bob lefel, o sesiynau blasu, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Gloywi i foreau coffi achlysurol a sesiynau 'ychydig o bopeth'.

Cyrsiau a mynychwyr cyfredol:

| Lefel yr astudiaeth | Nifer wedi cofrestru | Yn Bresennol |
|---|---|---|
| Mynediad 1 + 2 / Cyfunol | 4 | 82% |
| Mynediad 1 + 2 / Cyfunol | 16 | 83% |
| Mynediad 1 + 2 / Cyfunol | 8 | 82% |
| Mynediad 1 + 2 / Cyfunol | 7 | 87% |
| Sylfaen / Cyfunol | 5 | 83% |
| Uwch / Dosbarth | 6 | 90% |
| Gloywi / Dosbarth | 2 | 90% |
| Sylfaen / Hunan-astudio | 3 | Dd/B |

| | | |
|---|---|---|
| | | (Targed 25%) |
| Mynediad 1 + 2 / Cyfunol | 10 | 94% |

Nifer y staff sydd wedi cwblhau cyrsiau byr ar-lein:

| | | |
|---|---|---|
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| GOFAL CYMDEITHASOL: Rhan 1 | 5 | 5 |
| GOFAL CYMDEITHASOL: Rhan 2 | 5 | 5 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 1 |
| CROESO: Rhan 2 | 5 | 1 |
| GWELLA'CH CYMRAEG: | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 2 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 1 |
| CROESO: Rhan 2 | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 0 |
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 4 |
| CROESO'N ÔL: Rhan 1 | 5 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| CROESO: Rhan 1 | 5 | 0 |

| 2.2 | Amcanion: Rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg gyfarfod ac ymarfer eu sgiliau iaith | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu gweithgareddau cymdeithasol a 'sesiynau sgwrs' i wella hyder a lefelau hyfedredd | **Targed erbyn 2027** | Parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid i drefnu a / neu gefnogi cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd rhwng dysgwyr, siaradwyr newydd a siaradwyr yn y gymuned. Cynnwys manylion penodol yn y cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Mae Menter yn parhau i gynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol, dosbarthiadau, cyngherddau, teithiau cerdded, a chyfarfodydd i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg gyfarfod ac ymarfer eu sgiliau iaith.

Mae cyfleoedd cymdeithasol ac anffurfiol i oedolion wedi cynnwys:

- Dosbarthiadau Sbaeneg ar-lein
- Sgyrsiau thema misol yn denu hyd at 90 o gyfranogwyr
- Sesiynau gwirfoddoli yng Ngerddi Dyffryn
- 2 ddosbarth ar-lein gan gynnwys Sefydliadau Protest yng Nghymru (Yr Athro Paul O'Leary) a Beirdd Cymru (Yr Athro Christine Jones)
- Bore Coffi Misol i Ddysgwyr Cymraeg.
- Cyfres o dripiau i oedolion gan gynnwys Gŵyl Fwyd y Fenni a'r Eisteddfod Genedlaethol
- Cyfres o ddosbarthiadau iwcalili a gweithdai pobi mewn partneriaeth â DCyF

Cyfanswm y gweithgareddau i Oedolion yn 2022/23 = 163
Nifer y cyfranogwyr = 2,587

Datblygwyd elfennau o'r ddarpariaeth ar-lein yn ystod cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, mae adborth gan ddysgwyr a chyfranogwyr wedi dangos bod peth o'r ddarpariaeth ar-lein yn cael ei werthfawrogi'n fawr, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. O'r herwydd, rydym wedi cadw rhywfaint o ddarpariaeth ar-lein fel y sgyrsiau ar-lein.

Cafodd y ddarpariaeth Oedolion / Dysgwyr ei chydnabod yn ddiweddar yng Ngwobrau Mentrau Iaith Cymru yn y Deml Heddwch, Caerdydd.

Darllenwch adborth gan oedolyn sy'n dysgu yma

Mae DCyF yn cynnal Sadwrn Siarad yng Nghanolfan Palmerston bob mis, a chynhaliodd y Cydlynydd Iaith Gwaith foreau coffi ar foreau Sadwrn yn Llyfrgell y Barri. Hyrwyddir cyfleoedd cymdeithasol eraill fel prydau bwyd a digwyddiadau cwrdd lan ar wefan Iaith Gwaith, Yr Hwb.

Mae DCyF yn parhau i gefnogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddod at ei gilydd mewn boreau coffi anffurfiol. Dechreuwyd rhai o'r grwpiau hyn gan Menter Bro Morgannwg a dynnodd yn ôl yn ddiweddarach. Mae grwpiau eraill wedi cael eu dechrau gan ddysgwyr a thiwtoriaid sydd wedi ymddeol. Mae'r grwpiau hyn yn parhau i dderbyn cymorth DCyF. Bob wythnos mae DCyF yn hysbysebu'r cyfleoedd ar ei galendr a gyhoeddwyd fel copi caled ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'n cael ei ddiweddaru yn y fersiwn ddigidol ar y wefan.

learn-welsh-calendar-2022-23-v-chwe-23-cym.pdf (dysgucymraeg.cymru)

Mae'r cydlynydd Iaith Gwaith hefyd wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau anffurfiol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cwisiau, nosweithiau cyri, a sesiynau canu. Mae'r cydlynydd Iaith Gwaith hefyd yn cynnal dau 'fore coffi' wythnosol ar-lein ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Gweler cam gweithredu 1.8 am ragor o fanylion a lluniau.

| **2.3** | **Amcanion: Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynllunio rhaglen amrywiol o weithgareddau cymdeithasol i ddod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd, gyda rhaglen benodol i dargedu pobl ifanc 11-25 oed yn arbennig a hefyd y rhai hynny mewn grwpiau â nodweddion gwarchodedig | **Targed erbyn 2027** | Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau gan roi cymorth marchnata |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Ers mis Medi 2022, mae cyrsiau Cymraeg wedi bod am ddim i ddysgwyr dan 25 oed. Hysbysebwyd rhai cyrsiau ar wahân yn benodol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Canfuwyd bod anawsterau o ran recriwtio pobl o'r grŵp oedran hwnnw dros yr haf gan nad ydyn nhw'n aml yn derbyn amserlen eu coleg nac yn dechrau swydd tan fis Medi. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn mynychu'r wers gyntaf hyd yn oed. Penderfynwyd nawr bod cynnig y cyrsiau am ddim yn gynllun addas ond tra hefyd yn integreiddio dysgwyr o bob oed mewn dosbarthiadau.

| |
|---|
| Yn ôl treialon blaenorol e.e. *Cymraeg i'r Teulu* (llyfr cwrs a gynlluniwyd i flaenoriaethu'r Gymraeg sydd ei hangen gan rieni) canfuwyd mai lleoliad ac amserlen oedd y prif ffactorau i ddysgwyr wrth ddewis dosbarth. Mae hyn yn aml wedi arwain at oedolion heb blant yn mynychu'r cyrsiau hyn. Mae'r dysgwyr hyn yn cael eu derbyn ochr yn ochr â rhieni a neiniau a theidiau heb broblem. Mae'n fwy effeithiol teilwra pob dosbarth i weddu i ddeinamig y grŵp yn hytrach na hysbysebu ar gyfer demograffig penodol a chanfod ei fod yn denu pawb.<br><br>Nid yw DCyF yn gallu derbyn unrhyw un o dan 16 oed yn y brif raglen addysgu. Fodd bynnag, mae digwyddiadau teuluol yn croesawu'r teulu i ddysgu gyda'i gilydd trwy weithgareddau e.e., Dathliad Nadolig.<br><br>Mae Menter hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau wedi'u targedu i ddod â dysgwyr Cymraeg 11-25 ifanc a siaradwyr Cymraeg rhugl at ei gilydd.<br><br>Mae'r prif weithgareddau integreiddio wedi cynnwys:<br>• Gŵyl Fach y Fro<br>• Diwrnodau dathlu ar thema Cymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, Shwmae Shwmae, Diwrnod Cerddoriaeth Cymru.<br>• Gweithdai Radio gyda Radio Bro<br>• Roedd gigs yn y Paget Rooms a Memo hefyd wedi bod yn boblogaidd gyda phobl ifanc gan fod bandiau ysgol ar y rhaglen.<br><br>Fe wnaethon ni weithio'n agos gyda DCyF i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg fynychu digwyddiadau cymdeithasol. Er enghraifft, cynigiwyd tocynnau am ddim i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs Cymraeg i Oedolion i fynychu'r digwyddiadau cerddoriaeth a drefnwyd gennym. Manteisiodd 125 o unigolion ar y cynllun hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.4** | **Amcanion: Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned** | | |
| **Gweithgaredd** | Datblygu strategaeth ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddiddordebau, er enghraifft, chwaraeon, drama, dawns, celf a chrefft, gemau cyfrifiadurol, gweithgareddau awyr agored ac ati | **Targed erbyn 2027** | Cytuno ar y rhaglen a'i gweithredu |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaeth Ieuenctid y Fro / Gwasanaethau Hamdden) mewn partneriaeth â: Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc; Menter Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Prif ffocws gwaith Menter yn 2022/23 oedd datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd sicrhau bod gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol yn dychwelyd ar ôl cyfnod y pandemig yn flaenoriaeth allweddol i ni.

Mae clybiau wythnosol wedi cynnwys:

| | Sesiynau a fynychwyd |
|---|---|
| Clwb Dawns y Barri | 210 |
| Pêl-rwyd y Bont-faen | 360 |
| Pêl-droed i blant dan 5 oed | 270 |
| Pêl-droed Blwyddyn 1-2 | 300 |

Fe wnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â'r Urdd wrth ariannu darpariaeth clybiau chwaraeon gan gynnwys pêl-droed a phêl-rwyd. Ochr yn ochr â'r clybiau chwaraeon, mae clybiau hirdymor Menter, fel drama a charate, wedi parhau i redeg yn ardal Penarth a Llanilltud Fawr. Mae'r clybiau hyn yn rhoi cyfle i blant fynychu gweithgaredd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un o'r prif ddarpariaethau ar gyfer plant oedd gwasanaeth Bwrlwm sy'n rhedeg ym mhob cyfnod gwyliau. Cyflwynwyd y sesiynau chwarae mynediad agored mewn 4 lleoliad ar draws y Sir, gan ddenu dros 1450 o blant i sesiynau chwarae dros y flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle i blant ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol y tu allan i dymor yr ysgol a meithrin hyder ieithyddol. Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac roedd dros 85% o'r plant a fynychodd o gartrefi di-Gymraeg. Yn ogystal, mae grwpiau Bwrlwm wedi golygu cynnydd yn y defnydd o'r iaith ar adeg pan na fyddai llawer o blant yn ymwneud â'r Gymraeg oherwydd gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn helpu'r plant i sefydlu arferion cymdeithasol yn y Gymraeg yn ogystal â chreu cyflogaeth Gymraeg i nifer o bobl ifanc.

O ganlyniad i'r gefnogaeth gan wasanaeth Blynyddoedd Cynnar Cyngor Bro Morgannwg a Mentrau Iaith Cymru, roeddem yn llwyddiannus yn ein ceisiadau am grant i'r gronfa Gwên o Haf. Roedd hyn yn ein galluogi i gynnal nifer o weithgareddau dros y gwyliau haf i blant oed cynradd gan gynnwys padlfyrddio, merlota a gweithdai radio. Roedd y gweithgareddau hyn yn hynod boblogaidd ac roedd pob un ohonynt yn llawn

| **2.5** | **Amcanion: Annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn y gymdeithasol gan ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg - ar-lein ac yn y gymuned** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a chod ymddygiad a sefydlu Fforwm y Gymraeg i Bobl Ifanc | **Targed erbyn 2027** | Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol. Y fforwm i gynnwys cynrychiolydd o bob blwyddyn ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Cysylltwyd ag ysgol Bro Morgannwg am sylwadau a diweddariad ar y gweithgareddau Cymraeg a drefnwyd drwy'r flwyddyn ysgol, Fforwm yr Iaith Gymraeg, a datganiad cenhadaeth. | | | |
| **2.6** | **Cefnogi clybiau ieuenctid cyfrwng Cymraeg presennol** | | |
| **Gweithgaredd** | Cefnogi'r clybiau presennol ac ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth debyg yn rhywle arall | **Targed erbyn 2027** | Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys Penarth a'r Bont-faen |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: yr Urdd; Menter Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Clwb Ieuenctid Cymraeg sydd newydd ei sefydlu yn y Barri. Er bod y clwb yn cael ei redeg yn wythnosol gan yr Urdd, mae Menter yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o gyflwyno nifer o weithdai. Fel rhan o'r sesiynau wythnosol, mae plant wedi cymryd rhan mewn sesiynau crefft i greu cadeiriau dec ar gyfer Gŵyl Fach y Fro yn ogystal â nifer o sesiynau creu baneri bach a gweithdai graffiti. Bydd canlyniad y gwaith hwn i'w weld yng Ngŵyl Fach y Fro ym mis Mai. Gweler y lluniau: | | | |






Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda phobl ifanc i ddatblygu clwb padlfyrddio trwy gyfrwng y Gymraeg.  Roedd hyn yn gofyn am yr angen i nodi darpar arweinwyr, cyflwyno cwrs hyfforddi, a sefydlu grŵp.  Cwblhaodd chwech o bobl ifanc 16–18 oed y cwrs hyfforddi a dod yn hyfforddwyr padlfyrddio cymwysedig.  Ers hynny, maent wedi cynnal sesiynau padlfyrddio rheolaidd ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau.

Darllenwch dysteb yma



| |
|---|
| Mae adnoddau ac egni wedi canolbwyntio ar gryfhau'r clwb ieuenctid Cymraeg yn Y Barri. Mae materion staffio ac adnoddau yn atal ehangu ar draws y Fro. O fis Medi 2023, ein nod yw gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth ieuenctid a'r Urdd i ddatblygu darpariaeth ieuenctid Gymraeg mewn lleoliadau eraill yn y Fro. |

| **2.7** | **Amcanion: Cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n darparu ar gyfer diddordebau teuluoedd** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Fach y Fro a threfnu digwyddiadau tebyg i gyd-daro â dathliadau'r Nadolig, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi | **Targed erbyn 2027** | Trefnu 3 diwrnod hwyl i'r teulu yn ystod y flwyddyn mewn rhannau gwahanol o'r sir a chynyddu nifer y mynychwyr i Ŵyl Fach y Fro i 3,000 |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro;) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; yr Urdd; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Dechrau'n Deg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Cynhaliwyd Gŵyl Fach y Fro ym mis Mai 2022 mewn lleoliad newydd ymhellach ar hyd glan y môr. Daeth 8,000 draw (record ar gyfer yr ŵyl). Fe wnaeth pob ysgol Gymraeg yn y Fro gymryd rhan ar y diwrnod, yn ogystal â dwy ysgol cyfrwng Saesneg. Fe wnaeth dau gôr lleol ac academi ddrama gymryd rhan hefyd. Roedd partneriaid ar y diwrnod yn cynnwys Cymraeg i Oedolion, yr Urdd a llawer o grefftwyr lleol oedd yn darparu gweithdai. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â deuddeg busnes lleol a oedd yn rhedeg amrywiaeth o stondinau yn yr ŵyl gan gynnwys crefftau, dillad, celf ac ailgylchu. Fe wnaeth llawer o werthwyr bwyd a diod lleol hefyd gymryd rhan ar y diwrnod.<br><br>Gŵyl 2022 oedd â'r ystod ehangaf o berfformwyr o gefndiroedd BAME gyda phedwar band â chynrychiolaeth BAME.<br><br>Cyn yr ŵyl cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgysylltu â'r celfyddydau gyda phlant lleol gan gynnwys gweithdai graffiti a sesiynau i ddatblygu bandiau roc/pop Cymraeg newydd yn y Fro.<br><br>Roedd Dysgu Cymraeg y Fro yng Ngŵyl Fach y Fro ac maent hefyd wedi gweithio gyda Menter i gyflwyno digwyddiadau yng Nghanolfan Palmerston ar gyfer Calan Gaeaf, y Nadolig a'r Pasg. Mae'r calendr o ddigwyddiadau yn dangos yr hyn a ddigwyddodd drwy gydol y flwyddyn:<br>learn-welsh-calendar-2022-23-v-chwe-23-cym.pdf (dysgucymraeg.cymru) | | | |

| **2.8** | **Amcanion: Datblygu'r sîn gerddoriaeth Gymraeg a'r celfyddydau** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Parhau â'r ddarpariaeth gerddoriaeth a chelfyddydau Gymraeg mewn lleoliadau gwahanol ledled y Fro ac adeiladu ar lwyddiant Gigs Bach y Fro | **Targed erbyn 2027** | Cynnal 6 digwyddiad y flwyddyn i oedolion yn y Fro a sicrhau bod o leiaf 60 o bobl yn mynychu pob digwyddiad |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg | **Cysylltiad ag** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y Fro) mewn partneriaeth â'r Urdd; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg; holl Bartneriaid y Fforwm Iaith | **amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Roedd Gŵyl Fach y Fro yn llwyddiant mawr yn 2022 gyda dros 8000 o bobl yn bresennol a chafwyd mewnbwn cadarnhaol gan bob ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r trefniadau ar gyfer Gŵyl Fach y Fro 2023 ar y gweill, ynghyd â gŵyl ymylol.  Cynhaliodd Gigs Bach y Fro ddau ddigwyddiad ym mis Mai a mis Medi 2022, gyda dros 450 o fynychwyr aml-genhedlaeth ar draws y ddau ddigwyddiad.

Pan fo DCyF yn cael cynnig artist wedi'i ariannu, maent yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Bro Morgannwg i ddod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd e.e. Gwilym Bowen ar noswyl Gŵyl Fach y Fro 2022.  Roedd y digwyddiad hwn mor boblogaidd fel bod rhaid dod o hyd i leoliad mwy i ddarparu ar gyfer nifer y bobl a oedd eisiau mynychu.

Dychwelodd Gigs Bach y Fro yn 2022/23

| Perfformiad | Lleoliad | Yn Bresennol |
|---|---|---|
| Gwilym Bowen Rhys | Y Memo, Y Barri | 90 |
| Dafydd Iwan a'r Gerddorfa Iwcalili | Paget Rooms, Penarth | 350 |
| Brigyn | Foxy's Deli, Penarth | 35 |
| Tudur Owen – comedi | Y Memo, Y Barri | 150 |

Fe wnaethon ni gydweithio â Dysgu Cymraeg y Fro ar ein holl ddigwyddiadau cerddoriaeth a chynnig tocynnau am ddim i ddysgwyr Cymraeg gan annog cyfranogiad ac integreiddio â siaradwyr Cymraeg rhugl.

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cerddoriaeth yn Ysgol Bro Morgannwg gyda'r gantores Hanna Lili.  Hefyd, cynhaliwyd digwyddiadau cerddoriaeth yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro i ddathlu diwrnodau thema Cymraeg - Santes Dwynwen a Dydd Miwsig Cymru.



Tudur Owen yn perfformio yn y Memo, Y Barri.



Dafydd Iwan yn perfformio yn y Paget Rooms, Penarth.

| **2.9** | **Amcanion: Cynyddu cyfleoedd ffitrwydd, hamdden a lles drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Cynyddu nifer y gwersi nofio a'r dosbarthiadau ffitrwydd sydd ar gael yn Gymraeg i bob ysgol a lleoliad. Cydweithio â chymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Cysylltu â'r Bwrdd Iechyd o ran ffitrwydd fel adferiad | **Targed erbyn 2027** | Cytuno ar gynllun gweithredu ym Mlwyddyn 1 ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer ysgolion Cymraeg a chynnydd yn y ddarpariaeth fel y bo'n briodol ar gyfer ysgolion Saesneg a lleoliadau eraill |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaethau Hamdden) mewn partneriaeth â: Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); yr Urdd; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; Menter Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Rydym wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Hamdden i gael diweddariad ar nofio.

Mae'r gwasanaethau hamdden hefyd wedi gwneud y canlynol:

- gweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg drwy brosiect cenhadon ifanc Creu Chwarae a'r her Ysgolion Actif
- gweithio gydag Ysgol Bro Morgannwg mewn partneriaeth â'r Urdd, gan drefnu i gyflwyno gweithgareddau tennis a'r prosiect Cenhadon Ifanc
- Rhaglen Haf o Hwyl

| | | | |
|---|---|---|---|
| - Cysylltu â Menter Bro Morgannwg | | | |
| **2.10** | **Amcanion: Sicrhau bod Canolfannau Hamdden yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg** | | |
| **Gweithgaredd:** | Penodi Hyrwyddwr Iaith ym mhob canolfan hamdden sy'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg yn weledol ac yn ei darpariaeth hamdden (ar y cyd â'r tîm Cydraddoldeb) | **Targed erbyn 2027** | Hyfforddi Hyrwyddwyr Iaith a sefydlu prosesau monitro i werthuso cynnydd o ran defnyddio'r iaith |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaethau Hamdden / Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); yr Urdd; Menter Bro Morgannwg; | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Rydym wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Hamdden i gael diweddariad ar Hyrwyddwyr y Gymraeg.<br><br>Mae'r gwasanaethau hamdden hefyd wedi gwneud y canlynol:<br><br>- gweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg drwy brosiect cenhadon ifanc Creu Chwarae a'r her Ysgolion Actif<br>- gweithio gydag Ysgol Bro Morgannwg mewn partneriaeth â'r Urdd, gan drefnu i gyflwyno gweithgareddau tennis a'r prosiect Cenhadon Ifanc<br>- Rhaglen Haf o Hwyl<br>- Cysylltu â Menter Bro Morgannwg | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.11** | **Amcanion: Galluogi staff ac aelodau etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg gan gynnwys cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg** | | |
| **Gweithgaredd** | Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chydymffurfiaeth y Gymraeg a chynnwys cwrs sefydlu i staff newydd | **Targed erbyn 2027** | Cytuno ar raglen hyfforddi |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu Cymraeg y Fro / Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>4 - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |
| **Diweddariad** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae cwrs Ymwybyddiaeth Iaith wedi cael ei ddatblygu. Bydd ar gael ar iDev ar gyfer staff yn ddiweddarach yn 2023.<br><br>Cafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ei gyflwyno i gynghorwyr fel rhan o'r hyfforddiant Cydraddoldeb gorfodol i aelodau newydd.<br><br>Rydym wedi darparu diweddariadau Cymraeg ar gyfer y Bwrdd Mewnwelediad Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Chwefror 2023, yn ogystal ag ar gyfer penaethiaid gwasanaeth ym mis Mawrth 2023. | | | |
| **2.12** | **Amcanion: Annog staff ac aelodau etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau mewnol ac allanol** | | |
| **Gweithgaredd** | Rhoi hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac ystyried ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol | **Targed erbyn 2027** | Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Yn ystod ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, fe wnaethon ni siarad â staff am ddechrau a gorffen cyfarfodydd yn Gymraeg. Fe wnaethon ni rannu rhestrau ac enghreifftiau o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml i'w defnyddio yn ystod y diwrnod gwaith ac fe wnaethon ni annog staff i ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod er mwyn cael staff i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.<br><br>Gellir gweld y rhestr a ddarparwyd gennym yma<br><br>Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu ar Staffnet ar dudalen Yr Hwb. | | | |
| **2.13** | **Amcanion: Sicrhau bod gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yr holl bartneriaid yn y strategaeth yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y Gymraeg** | | |
| **Gweithgaredd** | Datblygu ymhellach sianeli gwefannau a chyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ac i sefydliadau partner am weithgareddau, digwyddiadau, cyfleoedd swyddi.<br><br>Sicrhau bod manylion cyswllt cymaint o bobl sy'n gadael yr ysgol â phosibl yn cael eu cofnodi (gydag ystyriaethau GDPR ar waith) | **Targed erbyn 2027** | Mae gwybodaeth reolaidd am weithgareddau sy'n benodol i'r Gymraeg wedi'i chynnwys yng nghynlluniau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac wrth ddatblygu'r wefan ymhellach. |

| Cyfrifoldeb | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: holl Bartneriaid y Fforwm Iaith | Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
|---|---|---|---|

**Diweddariad**

Mae'r tîm Cyfathrebu wedi gwneud y canlynol ar wefannau a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol mewnol ac allanol y Cyngor:

- Hyrwyddo Ffair Cyflogaeth ac Addysg Siaradwyr Cymraeg (Chwefror 23)
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – hyrwyddo Iaith Gwaith gyda fideo o ddysgwyr / siaradwyr y Cyngor
- Hyrwyddo sesiynau radio Haf o Hwyl Menter Bro Morgannwg
- Rhanni rhai o negeseuon Menter Bro Morgannwg - e.e. digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi
- Rhannu rhai o negeseuon Dysgu Cymraeg y Fro
- Hyrwyddo Fideos Mudiad Meithrin
- Dathlu Eisteddfod yr Urdd
- Hyrwyddo diwrnod agored Pen Y Garth
- Hyrwyddo ymgynghoriad Ysgol Iolo Morganwg
- Dydd Gŵyl Dewi (1 Mawrth)
- Diwrnod Hawliau (6 Rhagfyr)
- Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg yn barhaus drwy fideos Mudiad Meithrin.

Dangosyddion digidol Menter Bro Morgannwg:

| Dangosydd | Nifer |
|---|---|
| Negeseuon cyfryngau cymdeithasol | 434 |
| Gweithgareddau ar-lein / hybrid | 59 |
| Nifer y cyfranogwyr | 900 |

| 2.14 | **Galluogi addysg Gymraeg a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i fod ar gael i holl drigolion y Fro waeth beth fo'u cefndir neu leoliad** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Casglu a dadansoddi data ac ystadegau dienw ar y bobl sy'n defnyddio addysg Gymraeg a gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg o ran amrywiaeth, sefyllfa economaidd-gymdeithasol ac os ydynt yn dod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | **Targed erbyn 2027** | Casglu gwybodaeth ym Mlwyddyn 1, gyda'r bwriad o gynhyrchu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ym Mlwyddyn 2 |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: holl Bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

**Diweddariad**

Mae gwaith ar y gweill i edrych ar fonitro cydraddoldeb pobl sy'n cael mynediad i addysg a gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, i weld a oes angen ymgyrch codi ymwybyddiaeth neu farchnata â ffocws ym Mlwyddyn 2 y strategaeth hyrwyddo.  Byddwn yn ystyried a oes angen i ni dargedu hyrwyddo.

Rydym yn rhagweld gweithio gyda'r Hyrwyddwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.

| 2.15 | **Amcanion: Cynyddu'r cysylltiadau a rhwydweithio â sefydliadau di-Gymraeg yn y sectorau preifat a gwirfoddol** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Hyrwyddo ac annog y Gymraeg ac amlieithrwydd yn gyffredinol o fewn sectorau nad ydynt yn dod o dan ddeddfwriaeth y Gymraeg yn uniongyrchol. | **Targed erbyn 2027** | Ymgysylltu â'r sectorau preifat a gwirfoddol ym Mro Morgannwg |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â:  Menter Bro Morgannwg; holl Bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

**Diweddariad**

Mae Menter wedi gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y flwyddyn gydag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys:

- Y Memo, Y Barri
- Clwb padlfyrddio Bae Jackson – Island SUP
- Kitsch n Sync

- Foxy's Deli
- Hurts So Good
- Duke of Wellington a thafarndai Bro Morgannwg yn Y Bont-faen
- Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

| 3.1 | **Amcanion: Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth gyda phobl ifanc am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Sicrhau bod gan Gyrfa Cymru a swyddogion gyrfaoedd mewn ysgolion y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi sy'n gofyn am allu yn y Gymraeg a rhannu'r wybodaeth hon yn rhagweithiol | **Targed erbyn 2027** | Gyrfa Cymru, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a'r Fro i gytuno ar gynllun gweithredu a dyfeisio ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth drwy apiau a'r cyfryngau cymdeithasol |
| **Cyfrifoldeb** | Gyrfa Cymru; AALl; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro; yr Urdd | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Cysylltwyd ag Ysgol Bro Morgannwg am ddiweddariad. Rydym hefyd yn anelu at greu cysylltiad â Choleg Caerdydd a'r Fro i gael mwy o ddata.<br><br>Mae hysbysebion swyddi Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu rhannu gan DCyF a Menter ar y cyfryngau cymdeithasol. | | | |

| 3.1 | **Amcanion: Cynnal digwyddiad Ffair Gyrfaoedd / Swyddi wedi'i dargedu at hyrwyddo sgiliau dwyieithog fel sgiliau sy'n gysylltiedig â byd gwaith** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Trefnu Ffair Gyrfaoedd / Swyddi naill ai'n gorfforol neu ar-lein yn hyrwyddo sgiliau dwyieithog fel sgil sy'n gysylltiedig â byd gwaith wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-25 oed, a cheiswyr gwaith sy'n dychwelyd i gyflogaeth. | **Targed erbyn 2027** | Un digwyddiad pob blwyddyn ariannol |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Gyrfa Cymru; holl Bartneriaid y Fforwm Iaith; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Coleg Caerdydd a'r Fro; yr Urdd; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro; partneriaid rhanbarthol, er enghraifft, awdurdodau lleol cyfagos | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithiodd Menter gyda'r Urdd i drefnu Ffair Gyrfaoedd / Swyddi yn Ysgol Bro Morgannwg yn Y Barri ym mis Ionawr 2023. Cymerodd y sefydliadau canlynol ran: Urdd (Chwaraeon), Urdd (Prentisiaethau), Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Gyrfa Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Menter Bro Morgannwg a Menter Caerdydd. | | | |
| **3.3** | **Amcanion: Cefnogi datblygiad cyfleoedd gofal plant Cymraeg, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol** | | |
| **Gweithgaredd** | Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant rhieni sydd â phlant mewn addysg Gymraeg a pharhau â chynlluniau chwarae Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol | **Targed erbyn 2027** | Cefnogi datblygiad gofal plant ar ôl ysgol neu ofal plant cofleidiol lle nodir anghenion a chynyddu'r niferoedd sy'n mynychu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau 100% |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Dysgu a Sgiliau) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc; | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn y CSCA.<br><br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau wrthi'n drafftio Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Bro Morgannwg 2022-23 i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 31 Gorffennaf 2023 a bydd Adroddiad Blynyddol CSCA yn bwydo i gamau gweithredu perthnasol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-23 y Fro ar ôl iddi gael ei chwblhau a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Disgwylir i ganran y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu'n gynyddrannol dros y pum mlynedd nesaf gydag ehangiad Ysgol Sant Baruc ym mis Ebrill 2023 ac ehangiad arfaethedig Ysgol Bro Morgannwg. Cynyddodd lleoedd meithrin yn Ysgol Sant Baruc ym mis Medi 2022, ac mae disgwyl i hyn barhau ar safle'r ysgol newydd. Mae'n debygol y bydd y datblygiadau hyn yn arwain at gynnydd yn y galw am ofal cofleidiol neu ar ôl ysgol. | | | |
| **3.4** | **Amcanion: Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn rhwydweithiau digidol a phrint** | | |
| **Gweithgaredd** | Parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg mewn papurau newydd print a newyddion ar-lein | **Targed erbyn 2027** | Datblygu darpariaeth sy'n cynnwys erthyglau yn y fersiynau print ac ar-lein |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Cyfathrebu) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; holl Bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r holl allbwn gan y tîm Cyfathrebu, gan gynnwys erthyglau allanol, erthyglau mewnol ar Staffnet/Staffnet+, e-byst a negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg ar wahân ar Facebook a Twitter. | | | |
| **3.5** | **Amcanion: Ystyried y posibilrwydd o'r bartneriaeth Fforwm Iaith yn sefydlu Canolfan Gymraeg / Hyb Cymunedol yn y Fro** | | |
| **Gweithgaredd** | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i archwilio potensial sefydlu Canolfan/Hyb mewn lleoliad hygyrch, i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg - cysylltu â Gwasanaethau Gwirfoddoli Morgannwg i gynyddu cyfranogiad sefydliadau di-Gymraeg. | **Targed erbyn 2027** | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb a chyfleoedd ariannu, gan gynnwys modelau cyfredol o bob rhan o Gymru, gan gynnwys asedau ffisegol megis potensial Trosglwyddo Asedau Cymunedol (erbyn mis Mawrth 2023). |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: holl Bartneriaid y Fforwm Iaith ac eraill yn lleol fel Cyngor Tref y Barri ac ar draws Cymru megis awdurdodau lleol a Mentrau Iaith eraill | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Bydd camau gweithredu yn cael eu gohirio tan 2023/24 oherwydd maint y gwaith a'r hinsawdd ariannol. | | | |
| **3.6** | **Amcanion: Rhoi cymorth mewnrwyd Staffnet i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg** | | |
| **Gweithgaredd** | Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr sillafu, geiriaduron ar-lein ac adnoddau cyfieithu, cyrsiau Cymraeg a gweithgareddau yn y gymuned | **Targed ar gyfer 2027** | Rhestr gyflawn o adnoddau ar-lein |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg; Dysgu Cymraeg y Fro; Swyddog Cymraeg Cyngor Bro Morgannwg | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Mae tudalen ar Staffnet, Yr Hwb, wedi ei sefydlu gan Gydlynydd Iaith Gwaith a Swyddog y Gymraeg.  Mae'n cynnwys dolenni i gyrsiau Iaith Gwaith, cyrsiau ar-lein Dysgu Cymraeg y Fro, offer, gwybodaeth cyfieithu, a digwyddiadau fel boreau coffi wythnosol a sesiynau galw heibio amser cinio.<br><br>Iaith Gwaith: Yr Hwb (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx) | | | |

| |
|---|
| Iaith Gwaith: Digwyddiadau i ddod (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)<br>Cyrsiau (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx)<br><br>Mae'r ffilm fer a wnaed ym mis Tachwedd 2022 gyda dysgwyr Cymraeg yn rhannu profiadau ar gael i'w gweld:<br><br>Diwrnod Hawliau'r Gymraeg \| Dydd Mercher 7 Rhagfyr oedd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y... \| Gan Gyngor Bro Morgannwg \| Facebook |

| **3.7** | **Amcanion: Datblygu hyder staff ac aelodau'r Cyngor wrth ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Sicrhau bod Cysill a Cysgeir (gwirwyr gramadeg a sillafu Cymraeg) wedi eu gosod yn ddiofyn ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff ac aelodau etholedig | **Targed erbyn 2027** | Yr holl becynnau cyfrifiadur wedi'u gosod ac yn weithredol |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Mae meddalwedd Cysyll a Cysgair yn cael ei gosod ar holl gyfrifiaduron a gliniaduron staff y Cyngor.<br><br>Yn ystod ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, fe wnaethon ni siarad â staff am ddechrau a gorffen cyfarfodydd yn Gymraeg. Fe wnaethon ni rannu rhestrau ac enghreifftiau o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml i'w defnyddio yn ystod y diwrnod gwaith ac fe wnaethon ni annog staff i ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod er mwyn cael staff i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.<br><br>Fe wnaethon ni hefyd hyrwyddo'r cyrsiau Iaith Gwaith sydd ar gael i staff. | | | |

| **3.8** | **Amcanion: Adolygu aelodaeth o rwydweithiau Cymraeg lleol a rhanbarthol** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Y Fforwm iaith i adolygu rhwydweithiau Cymraeg lleol a rhanbarthol a diweddaru yn ôl yr angen, gan wahodd partneriaid "coll" i fynychu'r Fforwm Iaith a grwpiau eraill Yn unol ag ystyriaethau Diogelu Data a GDPR, asesu pa wybodaeth fonitro y gellir ei rhannu rhwng partneriaid yn rhanbarthol er mwyn helpu i gyflawni targedau o fewn y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd. | **Targed erbyn 2027** | Cynyddu cyfranogiad gan bartneriaid / sectorau eraill, er enghraifft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cymdeithasau tai, sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; holl bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned<br><br>4 - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |
| **Diweddariad**<br><br>Rydym yn aelod o Grŵp Deddf. Mae hwn yn grŵp cenedlaethol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfle i rannu profiadau ac arfer da, a meithrin cysylltiadau ar draws y cynghorau hefyd. Mae'r grŵp wedi creu rôl Pencampwr y Gymraeg sy'n cael ei gyflogi gan Lywodraeth Cymru, wedi'i leoli ym Menter Caerffili, ac yn gweithio ar ran awdurdodau lleol y de-ddwyrain ar amrywiaeth o brosiectau Cymraeg mewn addysg benodol. | | | |
| **3.9** | **Amcanion: Cynyddu gwaith partneriaeth ar brosiectau trawsffiniol a rhanbarthol** | | |
| **Gweithgaredd** | Lle y bo'n ymarferol, ymgymryd â phrosiectau rhwng partneriaid yn rhanbarthol i helpu i gyflawni targedau o fewn y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd | **Targed erbyn 2027** | Parhaus |
| **Cyfrifoldeb** | Pob partner Fforwm Iaith fel sy'n berthnasol fesul prosiect; partneriaethau rhanbarthol a fforymau megis P-RC, Grŵp Deddf, rhwydwaith grŵp Rhwydiaith CLlLC | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |
| **Diweddariad**<br><br>Bydd Pencampwr y Gymraeg yn ei swydd o fis Ebrill 2023 felly rydym yn rhagweld cael mynediad at brosiectau a chyd-ariannu i helpu i gyrraedd targedau wrth symud ymlaen. | | | |
| **3.10** | **Amcanion: Yn unol â'r CSCA, datblygu prosiectau o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion y 21ain Ganrif)** | | |
| **Gweithgaredd** | Datblygu mwy o ysgolion Cymraeg, canolfannau ar gyfer dysgu oedolion a dysgu cymunedol, trochi, grwpiau cymunedol fel rhan o'n rhaglen amlinellol strategol. | **Targed ar gyfer 2027** | Parhaus |
| **Cyfrifoldeb** | **Cyngor Bro Morgannwg mewn partneriaeth â: holl bartneriaid y Fforwm Iaith; Grŵp CSCA** | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

| |
|---|
| **Diweddariad**<br><br>Agorodd canolfan drochi’r Gymraeg ar gyfer plant oed cynradd ym mis Chwefror 2022. Symudodd Ysgol Sant Baruc i'w safle newydd ym mis Ionawr 2023. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer Ysgol Bro Morgannwg.<br><br>Mae staff ac adnoddau ariannol yn canolbwyntio ar ganolfannau, sesiynau a grwpiau sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod niferoedd ac egni yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i wrthdroi'r dirywiad yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig.<br><br>Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol CSCA sydd i'w gyflwyno erbyn diwedd Gorffennaf 2023. |

| **3.11** | **Amcanion: Ymgymryd â phrosiect Enwau Lleoedd i restru'r enwau Cymraeg / Saesneg ac enwau lleoedd eraill, yn unol â'r gronfa ddata genedlaethol ar-lein** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Rhestru enwau lleoedd safonol yn y Fro i'w defnyddio wrth enwi strydoedd ac ar arwyddion | **Targed erbyn 2027** | Rhestr wedi'i chwblhau a'i chymeradwyo |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Polisi a Thrawsnewid Busnes) mewn partneriaeth â: Menter Bro Morgannwg; Panel Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg; Grwpiau hanes lleol | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>4 - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |
| **Diweddariad**<br><br>Bydd y broses o restru enwau lleoedd Cymraeg safonol yn y Fro i'w defnyddio wrth enwi strydoedd ac arwyddion yn cael ei chyflawni yn ystod 2023/24. Mae hyn yn seiliedig ar ganllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg.<br><br>Newidiodd aelodaeth y panel adolygu ym mis Medi 2022 o ganlyniad i wahanol aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. | | | |

| **3.12** | **Amcanion: Adolygu Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor a chynnal asesiad sgiliau ieithyddol wedi'i ddiweddaru** | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | Adolygu a diweddaru'r Strategaeth a diweddaru'r dadansoddiad o sgiliau ieithyddol staff (Cymraeg a phob iaith arall), nodi bylchau mewn gwasanaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog a nodi anghenion hyfforddi | **Targed erbyn 2027** | Adolygu'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn ystod 2023 i'w chymeradwyo yn 2023, cynhyrchu archwiliad a dadansoddiad sgiliau iaith wedi'u diweddaru |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Adnoddau Dynol) | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y** | 2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cynllun Corfforaethol** | |
| **Diweddariad**<br><br>Cymerwyd camau cynllunio cyntaf asesiad sgiliau ieithyddol ar draws y Cyngor yn gynnar yn 2023 gydag AD. Mae cyflwyno'r Oracle Fusion newydd wedi golygu y bydd yr arolwg sgiliau'n cael ei ohirio tan yn ddiweddarach yn 2023. | | | |
| **3.13** | **Amcanion: Sicrhau bod y wybodaeth a'r data monitro ar gyfer y Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd, CSCA, adroddiadau blynyddol Safonau'r Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn cael eu llunio a'u hadrodd arnynt yn gyson** | | |
| **Gweithgaredd** | Mwy o gysondeb o ran data adrodd ar draws yr adroddiadau i'r holl Bwyllgorau Craffu perthnasol a chyrff adrodd allanol | **Targed erbyn 2027** | Bob blwyddyn, bod yr adroddiadau yn dangos mwy o gysondeb a manylder yn ogystal â chynnydd |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (pob adran) mewn partneriaeth â holl bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |
| **Diweddariad**<br><br>Bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn y CSCA.<br><br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau wrthi'n drafftio Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Bro Morgannwg 2022-23 i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 31 Gorffennaf 2023 a bydd Adroddiad Blynyddol CSCA yn bwydo i gamau gweithredu perthnasol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-23 y Fro ar ôl iddi gael ei chwblhau a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae swyddogion o Dysgu a Sgiliau wedi bod gyda'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn trafod synergeddau, lleihau dyblygu ac optimeiddio camau cyffredin rhwng y CSCA a Strategaethau Hyrwyddo'r Gymraeg. Y gobaith felly yw y bydd adroddiadau'n fwy syml. | | | |
| **3.14** | **Amcanion: Cynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu hwn ar ddiwedd blwyddyn dau a chymeradwyo'r fersiwn wedi'i diweddaru** | | |
| **Gweithgaredd** | Cynnal adolygiad o'r camau gweithredu ddiwedd 2023 hyd yma a diwygio yn ôl y gofyn, gan ystyried unrhyw amgylchiadau newydd | **Targed erbyn 2027** | Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyrwyddo wedi'i ddiweddaru a'i gymeradwyo erbyn mis Mawrth 2025 |
| **Cyfrifoldeb** | Cyngor Bro Morgannwg (Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg) mewn partneriaeth â holl bartneriaid y Fforwm Iaith | **Cysylltiad ag amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol** | 1 - Gweithio gyda a thros ein cymunedau<br><br>2 - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy<br><br>3 - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 4 - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |

**Diweddariad**

Cysylltwyd â'r swyddogion, yr adrannau a'r sefydliadau sy'n rhan o Gynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg i gael diweddariad ar weithgareddau a chamau gweithredu ar ddiwedd Blwyddyn 1. Mae'r diweddariad wedi'i gynnwys fel rhan o Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2022-23.